Rhwydwaith CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES Network

# Dogfen Ymgynghori: Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gofal mewn Profedigaeth yng Nghymru.

**Enw:** Sarah Capstick
**Sefydliad**: Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
**E-bost:** safercommunities@wlga.gov.uk
**Cyfeiriad**: Local Government House, Drake Walk, Caerdydd, CF10 4LG

## Cwestiynau

**1: A yw'n glir ar gyfer pwy mae'r fframwaith profedigaeth hwn a pham ei fod wedi cael ei ddatblygu?**
Ydy

**Os nad ydyw, rhowch wybod isod beth allwn ni ei wneud i gyflawni hyn?**
Mae'n ymddangos yn eglur ei fod ar gyfer y rhai hynny sydd angen gwasanaethau profedigaeth a'r rhai hynny a allai fod yn ei ddarparu neu'n cyfeirio unigolion ar ei gyfer.

**2. Sut gellir darparu gwasanaethau profedigaeth yn well i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a gwella eu mynediad iddynt (adran 4)? Rhowch eich awgrymiadau isod:**
Cefnogaeth sy'n benodol i oedran ar gyfer plant a phobl ifanc i'w diogelu rhag Llinellau Sirol a ffurfiau eraill o gamfanteisio.

Yn briodol yn ddiwylliannol ond angen ystyried os yw pobl yn cymryd meddyginiaeth eu hunain gan ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon neu alcohol ei bod yn bosibl nad yw'r rhain yn dderbyniol yn y diwylliannau hynny ac felly mae'n bosibl nad yw cael at wasanaethau o fewn eu diwylliant neu eu hardal ddaearyddol eu hunain yn bosibl o ganlyniad i stigma ayb a ddaw gyda hynny.

Mae'n bosibl fod angen gwasanaethau penodol i ddynion sydd wedi eu dylunio'n benodol.

Mae'n bosibl fod angen i wasanaethau LHDTCRh+ gymryd i ystyriaeth y gallai'r rhai sydd mewn profedigaeth gael eu hepgor o drefniadau teuluol. Sut mae ffrindiau ac unigolion eraill arwyddocaol yn ymdopi gydag angladd unigolyn yn cael ei wneud o dan enw genedigol yr unigolyn. Gallai hyn arwain at densiynau cynyddol mewn mannau gorffwys.

**3: A oes unrhyw fodelau / rhaglenni cymorth eraill (Adran 6) y dylai'r Fframwaith fod yn cyfeirio atynt?**

**A yw'r fframwaith yn glir wrth amlinellu cyfrifoldebau ar draws pob maes iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer ystyried anghenion cymorth a mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth ar gyfer profedigaeth?**
Ydy/Nac Ydy

**Rhowch fanylion isod:**
Ansicr, mae'n aneglur a yw unigolyn mewn profedigaeth yn y carchar ar hyn o bryd neu os ydynt yn yr ysbyty eu hunain.

**4: A yw'r adran Dysgu o Covid-19 (Adran 9) yn rhoi digon o sylw i'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig, a'r camau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod gofal a chymorth profedigaeth o ansawdd uchel ar gael i bawb sydd angen hynny yng Nghymru?**
Nac Ydy

**Os nad ydyw, rhowch wybod isod sut gellir gwneud hyn yn gliriach a beth arall dylid ei gynnwys.**
Nid oes unrhyw ystyriaeth ar gyfer y rhai hynny sydd yn y carchar a sut y byddant yn cael at wasanaethau y tu mewn ac os byddant yn cael eu rhyddhau wrth gael cefnogaeth gan y gwasanaethau profedigaeth.

Gall profedigaeth arwain at chwalu teuluoedd ac elfennau ychwanegol fel digartrefedd, ac felly mae angen i'r gwasanaethau hynny fod yn ymwybodol.

Crybwyllir iechyd meddwl ond nid y risgiau o gymryd meddyginiaeth eu hunain, fel camddefnyddio sylweddau. Camddefnyddio alcohol neu ymgymryd ag ymddygiad sy'n fwy peryglus gan gynnwys ymddygiad rhywiol neu hunan-niweidio.

Gall marwolaethau sydyn a'r rhai a ddisgwylir gynnwys hunanladdiad, damweiniau a throseddau treisgar. Gall y gefnogaeth y mae'r rhai sydd mewn profedigaeth ei hangen fod yn wahanol ym mhob un o'r amgylchiadau hyn. Mae'n bwysig nodi fod yr heddlu a phartneriaid yn ymwneud â'r rhai sydd mewn profedigaeth yn ogystal yn yr achosion hyn.

**5: Sut gellir darparu gwasanaethau profedigaeth yn well i bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a gwella eu mynediad iddynt? (Adran 10).**
**Rhowch eich awgrymiadau isod:**
Ymgysylltu gyda chymunedau, datblygu gyda nhw ac nid dim ond gweithredu ar eu cyfer.

Ystyried ei bod yn bosibl na fydd rhai o'r unigolion mewn profedigaeth yn gallu ceisio cefnogaeth o fewn eu hardal ddaearyddol neu o fewn cymunedau, gan y gallai gael

ei weld fel gwendid neu o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn dderbyniol i'r gymuned honno (e.e. camddefnyddio sylweddau, yfed alcohol).

Darparu gwasanaethau profedigaeth mewn ystod o ieithoedd fel eu bod yn hygyrch i fwy o bobl gan gynnwys y rhai hynny gyda Chymraeg a Saesneg cyfyngedig.

**6. A ydych yn credu y gellir cryfhau'r adran ar Hyfforddiant, Dysgu a Goruchwylio ar gyfer unigolion sy'n darparu cymorth profedigaeth ac i weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl sydd mewn profedigaeth (Adran 11) er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu profedigaeth, addysg a recriwtio.**
Ydw

**Rhowch fanylion isod:**
Mae angen ystyried cydafiachedd gyda meysydd eraill fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

Mwy o bwyslais ar ddiogelu, yn arbennig o ran plant a phobl ifanc, a'r risgiau o gamfanteisio yn ystod profedigaeth.

Cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu gyda chymunedau i leihau ynysu ac unigrwydd o ganlyniad i brofedigaeth.

Dylai Hyfforddiant, Dysgu a Goruchwyliaeth ar gyfer Unigolion sy'n Darparu Cefnogaeth gyda Phrofedigaeth gael ei gryfhau i ystyried anghenion sensitif ehangach y rhai hynny mewn profedigaeth pan fo'r farwolaeth wedi ei chysylltu gyda throsedd a/neu gamdriniaeth.

**7: A yw'r adran ar lwybrau atgyfeirio (adran 12) yn darparu digon o wybodaeth am y llwybr y gall pobl ei ddilyn i gael gafael ar gymorth mewn profedigaeth?**
Nac Ydy

**Os nad ydyw, rhowch fanylion ynghylch sut gellir cyflawni hyn.**
Nid oes yna lwybr clir ar gyfer y rhai hynny a allai fod â chyswllt gyda'r heddlu yn dilyn marwolaeth sydyn.

Sut y bydd unigolyn sydd yn y carchar yn gallu cael at wasanaethau.

Sut i gyrraedd plant a phobl ifanc a allai ddefnyddio adnoddau cyfathrebu gwahanol i oedolion.

**8: A ddylai'r fframwaith fod yn cyfeirio at fathau eraill o hunan-reolaeth/hunanofal (adran 13)?**
Dylai

**Os dylai, rhowch fanylion y dulliau isod:**
Mae angen cyfeirio at y risgiau'n ymwneud â rhoi meddyginiaeth i'r hunan ac i gadw'n ddiogel eu hunain.

**9. A yw'r Safonau Profedigaeth (Atodiad 1) yn nodi pa feysydd mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn i wasanaethau cymorth profedigaeth fod yn ddiogel ac yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion pobl sydd mewn profedigaeth? A yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno'r safonau hyn?**
Ydy/Nac Ydy

**Os nad ydyw, rhowch fanylion sut gellir cyflawni hyn.**
Mae'n eglur cyn belled ag y mae'n mynd. Nid yw'n egluro sut i gyrraedd y rheiny sydd yn y carchar.

Nid yw'n cynnig meysydd ychwanegol o gefnogaeth ar gyfer y rhai sydd mewn profedigaeth lle gallai'r marwolaethau achosi aflonyddwch sifil a pheryglu diogelwch cymunedol. Ar ben y brofedigaeth fe allai fod yna hefyd deimladau cyfiawn neu heb gyfiawnhad o annhegwch – a allai gynyddu o ganlyniad i densiynau cymunedol a diffyg cydlyniant cymunedol.

**10. Rydym eisiau clywed eich safbwyntiau ynghylch sut gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y fframwaith/safonau profedigaeth yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n briodol? A yw'n glir sut bydd gweithrediad y fframwaith yn cael ei fonitro i weld a fydd yn cael effaith ymarferol ar ddarparu gofal profedigaeth yng Nghymru?**
**Rhowch eich awgrymiadau isod:**
Dim ymateb.

**11. Hoffem wybod eich barn am effaith y Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Darparu Gofal Profedigaeth yng Nghymru ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?**
Dylai darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg drin yn gadarnhaol y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Fodd bynnag, o ystyried y pwyslais ar gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn yr ymgynghoriad, fe all fod yn briodol hefyd i edrych ar y ddarpariaeth o ran ieithoedd eraill yn ogystal.

**12: Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Darparu Gofal mewn Galar yng Nghymru gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Dim ymateb.

**13: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu/camau nesaf sydd ar goll y dylai'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar gyfer Profedigaeth eu cymryd yn eich barn chi, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt:**

Yr angen am ymgysylltiad yn ymwneud â diogelwch cymunedol gyda'r perygl o ddicter posibl yn arwain at ymddygiad gwrth-gymdeithasol, tanau bwriadol, ymddygiad peryglus, camddefnyddio alcohol a chamddefnyddio sylweddau, gall y rhain i gyd gynyddu'r problemau a achosir i ddechrau gan brofedigaeth.

Yn cysylltu â gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a allai fod yn briodol yn dilyn marwolaeth dreisgar, ond hefyd os yw tramgwyddwr wedi marw (heb gysylltiadau) a bod yr unigolyn mwyaf sydyn yn rhydd. Er enghraifft, gwraig briod sydd ar ôl 40 o flynyddoedd a mwy yn gallu cael at arian mwyaf sydyn am y tro cyntaf – neu na all gael at yr arian gan nad yw'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth.

Cefnogaeth gyda phrofedigaeth y gellid bod ei hangen ar y pryd ond hefyd yn ddiweddarach os yw'r sawl sydd mewn profedigaeth yn gorfod ail-fyw y cyfan drwy achos llys.

Mae Atodiad 4 yn ymdrin â'r cysylltiadau â chanllawiau/dogfennau fframwaith eraill. Fe fyddem yn awgrymu'r angen am ystyriaeth bellach yn ymwneud â meysydd nad ydynt wedi eu datganoli a'u rhyngweithio gyda gofal mewn profedigaeth. Yn benodol y system gyfiawnder, gan ystyried cod y dioddefwyr. Er enghraifft yn ymwneud ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig, mae yna wybodaeth benodol ar ymwneud teulu, ffrindiau a rhwydweithiau cefnogi eraill yn adran 6 y canllawiau statudol (gweler y ddolen isod). Gan y bydd y rhain, dan yr holl amgylchiadau bron, hefyd yn unigolion a allai fod angen gwasanaethau profedigaeth, mae'n bwysig y caiff y rhain eu hystyried gan y rhai hynny sy'n darparu cefnogaeth mewn profedigaeth neu'n darparu eiriolaeth yn ymwneud â'r Adolygiadau Lladdiadau Domestig eu hunain.

Mae'n bosibl y bydd angen gweithio'n fwy agos mewn partneriaeth a chysylltiadau rhwng eiriolaeth a dulliau cefnogi eraill ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig a gwasanaethau cefnogi ar gyfer profedigaeth. (DHR-Statutory-Guidance-161206.pdf)